Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth Primary School

Mrs Helen Sharkey
Pennaeth / Headteacher

Ffôn | Telephone: 02920 810489

Prif Ffordd | Main Road
Gwaelod y Garth
Caerdydd | Cardiff
CF15 9HJ

ysgolgwaelodygarth@cardiff.gov.uk
www.gwaelodygarth.co.uk

**Ysbrydoli, Cefnogi, Llwyddo / *Inspire, Support, Succeed***

[Scroll down for English] 03.09.25

## Croeso nôl – Welcome back

Annwyl deuluoedd,

Hyfryd iawn yn wir yw gallu croesawu ein disgyblion yn ôl i'r ysgol heddiw i'r flwyddyn academaidd newydd. Mae pawb yn llawn hanesion yr haf ac mae ôl amlwg o fwynhau ac ymlacio. Gobeithio i chi gyd hefyd cael gwyliau haf da. Braf iawn heddiw yw gweld ein plant yn setlo yn eu dosbarthiadau newydd ac i'r flwyddyn newydd gydag egni newydd, brwdfrydedd ac uchelgais.

Ar ran holl gymuned yr ysgol, dyma estyn groeso cynnes iawn i blant a deuluoedd sydd yn ymuno â ni am y tro cyntaf; gobeithiwn eich bod setlo'n dda fel aelodau o'n cymuned hyfryd. Mae ambell wyneb newydd hefyd ar staff yr ysgol eleni. Croeso cynnes i **Miss Taylor** yn y swyddfa, **Mrs Hollingsworth** yn y Feithrin, **Miss Evans** yn 2C a **Miss Moreno** sydd yn treulio amser mewn sawl man ar draws yr ysgol. Rydym hefyd yn falch o allu croesawu **Miss Lisa Jones** atom fel athrawes yn 4C tan y Nadolig. Fel y gwyddoch, bydd **Mrs Wendy Owen** yn Ddirprwy Bennaeth Dros Dro dros dymor yr Hydref.

Hoffwn gymryd cyfle ar gychwyn tymor fel hwn i'ch atgoffa am negeseuon allweddol er mwyn cefnogi lles a chynnydd pob un o'n disgyblion ac hefyd yn elwa'r gymuned ehangach.

### Absenoldeb a Phrydlondeb

Mae presenoldeb da yn allweddol i dwf pob plentyn. Mae pob diwrnod yn yr ysgol yn cyfri. Mae gennym ddisgwyliadau uchel o bresenoldeb a phrydlondeb i bob plentyn ac mae'r rhan fwyaf o'n plant yn cynnal safonau uchel iawn. Gofynnwn i chi sicrhau bod eich plentyn yn bresennol yn yr ysgol ar bob cyfle. Pe bai angen i'ch plentyn aros adref oherwydd salwch, mae'n ofynnol i chi adael neges gyda swyddfa'r ysgol i nodi rheswm penodol am yr absenoldeb, gan gynnwys manylion penodol am y salwch.

Mae munudau cyntaf y bore yn amser pwysig i ddisgyblion wrth gyrraedd yr ysgol ac i setlo i'r dosbarth. Mae hwn hefyd yn amser lle bo staff yn gweithio gyda phlant i gefnogi eu lles. Gofynnwn i chi sicrhau bod eich plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon cyn i'r gatiau gau am 9am.

### Parcio a theithio i'r ysgol

Anogwn pob teulu i deithio yn gynaliadwy trwy gerdded neu seiclo i'r ysgol lle bynnag bo hynny'n bosib. Mae parcio ger yr ysgol yn parhau yn her i deuluoedd yr ysgol a chymuned y pentref. Mae cynnal perthynas agos â chymdogion yr ysgol yn bwysig iawn i ni a gofynnwn felly i chi osgoi orfod parcio ger yr ysgol pe bai hynny'n bosib, gan barcio yng ngwaelod y pentref a cherdded y pellter byr i'r ysgol. Mae Bws Cerdded yr ysgol yn gadael Heol Berry pob dydd am 8.50, o dan ofal staff, ac yn ffordd diogel a saff o gyrraedd yr ysgol. Gofynnwn i bawb barcio yn ystyrlon ac i ddangos parch a chwrteisi at bawb ar bob adeg.

Bydd Bws Beics yr ysgol yn ail-gychwyn cyn hir a byddwn yn rhannu dyddiadau'r bws yn y man.

**Cinio Ysgol**
Er mwyn hwyluso trefniadau dyddiol ac i sicrhau bod disgyblion yn derbyn y cinio o'u dewis, gofynnwn i chi sicrhau bod ciniawau eich plant wedi'u harchebu ymlaen llaw.

**Bwyta'n iach**
Mae plant sydd yn bwyta'n iach yn dysgu'n well, yn teimlo'n well ac yn tyfu'n gryfach. I blant sydd yn dod â bocs bwyd i'r ysgol, gofynnwn i chi sicrhau bod cynnwys y bocs bwyd yn iach. Gofynnwn hefyd bod pob byrbryd yn iach. Disgwyliwn bod pob plentyn yn dod a photel dŵr i'r ysgol pob dydd sydd yn cynnwys dŵr yn unig.

**Grant Hanfodion Ysgol**
I deuluoedd ar incwm is, cofiwch fod Grant Hanfodion Ysgol ar gael er mwyn helpu gyda chostau'r diwrnod ysgol, gan gynnwys gwisg ysgol. Fe'ch anogwn i ymgeisio am hwn os ydych yn gymwys. Dyma'r linc: Grant Hanfodion Ysgol: help gyda chostau ysgol  Os nad ydych chi'n siŵr os ydych yn gymwys ai beidio, mae hefyd modd i chi ddilyn y linc i weld. Mae hyn hefyd yn arwain at gyllid ychwanegol i'r ysgol.

**Arolygon Barn Rhieni / Gwarcheidwaid**
Fe gofiwch i chi cael cyfle cyn yr Haf i lenwi arolygon barn am yr ysgol. Diolch yn fawr iawn i bawb a ymatebodd. Rwyf bellach wedi darllen pob ymateb ac mae'r wybodaeth sydd ynddynt yn hynod ddefnyddiol i ni wrth werthuso ac hefyd i newid ambell beth lle bo angen. Rwyf hefyd yn awyddus i nodi bod croeso i chi gysylltu os ydych yn teimlo bod unrhyw fater a godwyd yn yr holiaduron yr hoffech drafod ymhellach gyda mi. Cysylltwch drwy swyddfa'r ysgol os hoffech drafod ymhellach.

**Cyd-destun y tymor: Cynefin**
Rydym yn gyffrous iawn i gael cyfle i ddysgu rhagor am ein cynefin a'n hardal leol y tymor hwn. Am y tro cyntaf eleni, byddwn yn anfon taflenni atoch gan ofyn i chi drafod y cyd-destun hwn gyda'ch plentyn er mwyn casglu syniadau i fwydo i gwricwlwm y tymor. Daw rhagor o wybodaeth atoch cyn diwedd yr wythnos. Yn y cyfamser, rydym yn awyddus i estyn allan atoch fel rhieni i ofyn am gymorth. Pe bai gennych wybodaeth neu arbenigedd am yr ardal leol ac yn galu rhannu hwnnw gyda'n disgyblion, rhowch wybod i ni! Yn haneswyr, daearyddwyr, naturiaethwyr, artistiaid a rhagor, dewch yn llu! Rhowch wybod i ni os allwch chi, neu rywun yr ydych yn adnabod, helpu.

**Dyddiadau'r Tymor**
Mae rhestr o ddyddiadau allweddol y tymor bron yn gyflawn ac fe ddanfonwn hwnnw atoch yn fuan iawn. Yn y cyfamser, diolch i chi am bob cydweithrediad ac am eich cefnogaeth barhaus.

Cofion cynnes,

Mrs Sharkey
Pennaeth - Headteacher

**Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth Primary School**

Mrs Helen Sharkey
Pennaeth / Headteacher

Ffôn | Telephone: 02920 810489

Prif Ffordd | Main Road
Gwaelod y Garth
Caerdydd | Cardiff
CF15 9HJ

ysgolgwaelodygarth@cardiff.gov.uk
www.gwaelodygarth.co.uk

**Ysbrydoli, Cefnogi, Llwyddo / *Inspire, Support, Succeed***

03.09.25

# Croeso nôl – Welcome back

Annwyl deuluoedd / Dear families,

It is lovely to be able to welcome our pupils back to school today for the new academic year. The children are full of their summer tales and it is clear that there has been much enjoyment and relaxation. I hope you have also had a good summer break. We are pleased to see our children settling into their new classes and into the new year with new energy, enthusiasm and ambition.

On behalf of the whole school community, I extend a very warm welcome to children and families who are joining us for the first time; we hope that you will settle well in our wonderful community. There are a few new faces on the school staff this year. A warm welcome to **Miss Taylor** in the office, **Mrs Hollingsworth** in the Nursery, **Miss Evans** in 2C and **Miss Moreno** who is working in many places across the school. We are also pleased to be able to welcome **Miss Lisa Jones** to us as a teacher in 4C until Christmas. As you are aware, **Mrs Wendy Owen** will be Acting Deputy Headteacher for the Autumn term.

I would like to take the opportunity at the start of a term like this to send a reminder of key messages that support the wellbeing and progress of each of our pupils and wider community.

## Absence and Attendance

Good attendance is key to every child's growth. Every day at school counts. We have high expectations of attendance and punctuality for all children and most of our children maintain very high standards. We ask that you ensure that your child is present at school at all times. Should your child need to stay home due to illness, you are required to leave a message with the school office stating a specific reason for the absence, including specific details about the illness.

The first few minutes of the morning are an important time for pupils when arriving at school to settle into class. This is also a time where staff work with children to support their wellbeing. We ask that you ensure that your children arrive at school promptly and before the gates close at 9am.

## Park and travel to school

We encourage all families to travel sustainably by walking or cycling to school wherever possible. Parking near the school continues to be a challenge for the school families and the village community. Maintaining a close relationship with our neighbours is very important to us and we therefore ask that you avoid having to park near the school if possible, parking at the bottom of the village and walking the short distance to the school. The school's Walking Bus leaves Heol Berry every day at 8.50, under the care of staff, and is a safe and secure way to get to school. We ask everyone to park considerately and to show respect and courtesy to everyone at all times.

The school Bike Bus will resume soon and we will be sharing bus dates shortly.

### School Lunches

To ease arrangements and to ensure that pupils receive the lunch of their choice, we ask that you ensure that your children's dinners are ordered in advance.

### Healthy Eating

Children who eat healthy learn better, feel better and grow stronger. For children who bring a lunch box to school, we ask that you ensure that the contents of the food box are healthy. We also ask that every snack is healthy. We expect all children to bring a bottle of water to school every day that contains only water.

### School Essentials Grant

For families on lower incomes, the School Essentials Grant is available to help with the costs of the school day, including school uniform. We encourage you to apply for this if you are eligible. Here is the link: School Essentials Grant: help with school costs If you're not sure if you're eligible or not, you can also follow the link to see. This also leads to additional funding for the school.

### Parent / Guardian Opinion Surveys

You may remember that you had an opportunity before the Summer to complete opinion surveys about our school. Diolch to everyone who responded. I have read all your responses and the information contained in them is extremely useful for us in evaluating and also to change a few things where necessary. I am also keen to note that you are most welcome to contact me should there be any matters raised that you would like to discuss further. Please contact me via the school office if you would like to discuss further.


### Learning Context for the term: Cynefin

We are very excited to have the opportunity to learn more about our ‘cynefin’ and local area this term. For the first time this year, we will be asking you to discuss this context with your child in order to gather ideas to feed into the term’s curriculum. We will contact with more information before the end of the week. In the meantime, we are keen to reach out to you as parents to ask for your help. If you have knowledge or expertise about the local area and would be able to share this with our pupils, please let us know! Historians, geographers, naturalists, artists and more, let us know! Please let us know if you, or someone you know, can help.

### Term Dates

A list of key dates for the term is almost complete and we will send this to you very soon. In the meantime, diolch for your cooperation and for your continued support.

Cofion cynnes,



Mrs Sharkey
Pennaeth - Headteacher